**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 7 Hydref 2021 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | C A Holley | P N May |
| P M Black | P R Hood-Williams | H M Morris |
| J E Burtonshaw | B Hopkins | D Phillips |
| M C Child | D H Hopkins | C L Philpott |
| J P Curtice | L James | S Pritchard |
| N J Davies | O G James | A Pugh |
| P Downing | Y V Jardine | J A Raynor |
| C R Doyle | L R Jones | C Richards |
| M Durke | M Jones | K M Roberts |
| C R Evans | P K Jones | B J Rowlands |
| V M Evans | S M Jones | R V Smith |
| W Evans | E T Kirchner | A H Stevens |
| E W Fitzgerald | M A Langstone | R C Stewart |
| R Francis-Davies | H Lawson | D G Sullivan |
| S J Gallagher | A S Lewis | M Thomas |
| L S Gibbard | M B Lewis | L G Thomas |
| F M Gordon | R D Lewis | L J Tyler-Lloyd |
| K M Griffiths | C E Lloyd | G D Walker |
| J A Hale | P Lloyd | L V Walton |
| D W Helliwell | I E Mann | T M White |
| T J Hennegan | P M Matthews | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A M Day, M H Jones, J W Jones, E J King, W G Lewis,

M Sherwood, P B Smith a/ac G J Tanner

---

## 45. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ar eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 46. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin o'r cyngor a gynhaliwyd ar 2 Medi 2021.

## 47. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 48. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Gwobrau Tai Cymru 2021

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Gwobrau Tai Cymru'n cydnabod ac yn dathlu creadigrwydd, angerdd ac arloesedd sefydliadau tai ac unigolion ar draws y sector yng Nghymru. Roedd yn bleser ganddo gyhoeddi bod Cyngor Abertawe wedi ennill mewn 2 gategori yng Ngwobrau Tai Cymru 2021.

i) Categori Gweithio mewn Partneriaeth. Tŷ Tom Jones.

ii) Categori Arloesedd mewn Tai. Cyngor Abertawe mewn partneriaeth ag Ysgol Pensaernïaeth Cymru.

Llongyfarchiadau i Matt's House Abertawe sydd wedi ennill gwobr hefyd:

i) Categori Cefnogi Cymunedau. Prosiect Bwyd Swansea Together

### b) Gwobr y Faner Werdd Gymunedol – Llyn golchi a gardd gymunedol Cyfeillion Mayhill

Dywedodd yr Aelod Llywyddol y dyfarnwyd Gwobr y Faner Werdd Gymunedol i lyn golchi a gardd gymunedol Cyfeillion Mayhill am y drydedd flwyddyn yn olynol. Llongyfarchodd bawb a fu'n rhan o hyn.

**c) Cywiriadau/Diwygiadau i Wŷs y Cyngor**

**i) Eitem 10 “Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor”**

Yn yr argymhelliad, rhaid dileu'r cyfeiriad at Baragraff 1.6" a rhoi "Paragraff 3" yn ei le.

## 49. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**a) Abertawe - Dinas Hawliau Dynol**

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n dod ag adroddiad cyn bo hir sy'n datgan Abertawe fel Dinas Hawliau Dynol. Hwn fyddai'r cyntaf yng Nghymru.

**b) Partner Datblygu**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Urban Slash wedi'i gyhoeddi fel Partner Datblygu'r Awdurdod.

**c) Croen yr Arena**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd llawer wedi gweld profion diweddar ar groen yr Arena a bod y profion yn mynd rhagddynt yn dda. Dywedodd hefyd fod y gwaith ar y trywydd iawn i'w gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf cyn i ATG wneud y gwaith mewnol.

**d) Cronfa Adfer**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i bawb am y ceisiadau a gyflwynwyd i gael cyllid o'r gronfa. Dywedodd eu bod yn cael eu hystyried ac y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud maes o law.

## 50. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Cyflwynodd Nortridge Perrott 3 chwestiwn mewn perthynas â Chofnod 52 "Adolygiad o Gronfeydd Refeniw Wrth Gefn".

Ymatebodd y Swyddog Adran 151.

## 51. Adroddiad Blynyddol 2020/21 Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad sef ei esboniad ef o daith wella'r cyngor i 2020-21, a pha mor dda yr oedd y cyngor yn bodloni'i ofynion statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

2014. Roedd yr adroddiad yn edrych yn ôl ar feysydd i'w gwella'r llynedd; yr heriau a wynebwyd a'r blaenoriaethau newydd a nodwyd ar gyfer 2021/22. Tynnodd sylw at newidiadau a oedd wedi digwydd o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni cynnydd tuag at ganlyniadau llesiant cenedlaethol.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020-21.

## 52. Adolygu'r refeniw wrth gefn.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnwys adolygiad canol blwyddyn o sefyllfa'r Refeniw Wrth Gefn ac roedd yn ceisio cytundeb ar gyfer unrhyw awgrym i ailddosbarthu'r cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar ofynion presennol.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Caiff yr argymhellion a wnaed yn Adrannau 3.10 a 3.11 o'r adroddiad eu cymeradwyo.

## 53. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro, y Pennaeth Eiddo a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a argymhellwyd i'r cyngor gan Weithgor y Cyfansoddiad. Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i Reolau'r Gweithdrefnau Prynu a Gwerthu Tir a'r Cynllun Dirprwyo.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo a mabwysiadu'r gwelliannau fel yr amlinellir ym Mharagraff 3 ac Atodiad A yr adroddiad.

## 54. Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a argymhellwyd i'r cyngor gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd yr adroddiad yn ceisio cydymffurfio â Rhan 6, Pennod 2 "Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio: Aelodaeth a Thrafodion" Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drwy sicrhau bod aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cynnwys traean o aelodau Lleyg.

**Penderfynwyd:**

1) Y caiff argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sef bod y Pwyllgor yn cynnwys 15 Aelod (10 Cynghorydd a 5 Aelod Lleyg) ei gymeradwyo.

2) Y bydd y broses o recriwtio'r Aelodau Lleyg ychwanegol yn dechrau'n unol â gweithdrefnau'r cyngor.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley am gyfarfod ag Arweinydd y Cyngor, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn trafod cylch

gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'n trefnu'r cyfarfod.

**55. Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 2019-2020 & 2020-2021.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad gwybodaeth a argymhellwyd i'r cyngor gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd. Roedd yr adroddiad yn darparu Adroddiadau Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2019-2020 a 2020-2021. Roedd yr adroddiadau'n amlinellu gwaith y Pwyllgor yn ystod y cyfnodau hynny.

**56. Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith**

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth, a oedd yn cyflwyno adroddiad diweddaraf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar effaith Craffu.

**57. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A**

Cyflwynwyd wyth (8) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd chwech (6) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

**58. Rhybudd o Gynnig - Tan Gwyllt.**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd L V Walton a'i eilio gan y Cynghorydd D H Hopkins.

*“Defnyddir tân gwyllt gan bobl trwy gydol y flwyddyn i nodi digwyddiadau gwahanol. Er y gallant ddod â llawer o fwynhad i rai pobl, gallant achosi pryder ac ofn sylweddol i rai unigolion a hefyd anifeiliaid, anifeiliaid anwes a da byw.*

*Felly, rydym yn galw ar Gyngor Dinas a Sir Abertawe i:*

1. *Ofyn i'r holl Arddangosfeydd Cyhoeddus a drefnir o fewn ffiniau'r awdurdod lleol gael eu hysbysebu cyn y digwyddiad, gan ganiatáu i breswylwyr gymryd y rhagofalon angenrheidiol ar gyfer eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.*

2. *Hyrwyddo Ymgyrch Ymwybyddiaeth y Cyhoedd ynghylch effaith tân gwyllt ar anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed, gan fanylu ar y rheoliadau presennol, a chan gynnwys rhagofalon y gellir eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau.*

*3.* *Annog Cyflenwyr Tân Gwyllt Lleol i gadw "fersiwn dawelach" o dân gwyllt na'r hyn a ddefnyddir ar gyfer Arddangosfeydd Cyhoeddus.*

*4.* *Ysgrifennu at Lywodraethau'r DU a Chymru, gan eu hannog i adolygu ac ystyried y ddeddfwriaeth bresennol a chyfyngu ar uchafswm lefelau sŵn y tân gwyllt y gellir ei werthu i aelodau'r cyhoedd at ddefnydd preifat i 90 dB."*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.15 pm

**Cadeirydd**